PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Arholiad Mynediad**
**Chwefror 2024**

# DRAMA AC ASTUDIAETHAU THEATR

Amser: 1.5 awr (90 munud)

**Atebwch DDAU gwestiwn**

---

1. Trafodwch berthynas y gynulleidfa/perfformiwr a hyrwyddir gan y confensiynau llwyfannu canlynol a rhowch enghreifftiau lle gellid dewis un math o lwyfannu yn lle un arall.

Bwa Prosceniwm
Llwyfan pen-yn-ben
Theatr yn y cylch
Llwyfan Ymwthiol
Llwyfan Traws

2. Beth sy’n gwneud theatr yn unigryw?  Beth all theatr gyfrannu i gymdeithas neu ddiwylliant?  Trafodwch.

3. Sut fyddech chi’n datblygu darn o theatr penodol-i-le sy’n ymateb i amgylchedd coedwig?   Dylech gynnig rhai syniadau am y testunau y gallech eu defnyddio neu eu datblygu, y mathau o berthynas rhwng y gynulleidfa, y perfformwyr a’r lleoliad a’ch dewisiadau o ran dylunio.

4. Gan roi o leiaf DDWY enghraifft o gynyrchiadau yr ydych chi wedi'u gweld yn ddiweddar, trafodwch sut mae’r gwaith dylunio o safbwynt y gwisgoedd, y llwyfannu, y goleuo a’r sain wedi cyfrannu at eu heffaith a'u naws yn gyffredinol.

5. Trafodwch bwysigrwydd hyfforddiant corfforol i berfformio.  Dylech gyfeirio at gwmnïau ac ymarferwyr penodol i gefnogi eich ateb.

6. Trafodwch waith **DAU** grŵp neu gwmni theatr sydd o ddiddordeb ichi.  Nodwch yr hyn sy'n arbennig am y modd y maent yn mynd ati i berfformio.